# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2026.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd M.R. Wilson (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr: J. Aviet, G. Bruce, I.R. Buckley, C.A. Cave, J.E. Charles, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard ac E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), ac R. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio).

| Enw'r Siaradwr | Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad | Rheswm dros Siarad |
|---|---|---|
| Mr Paul Thomas | 2021/00209/FUL – Tir yn Sigingstone | Gwrthwynebwyr i'r cais neu eu cynrychiolydd |
| Ms Sarah Brewer | 2021/00209/FUL – Tir yn Sigingstone | Cynrychiolydd o Gyngor Tref neu Gymuned |
| Mrs Catherine Blyth | 2021/00209/FUL – Tir yn Sigingstone | Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd |
| Mr James Scarborough | 2023/00815/FUL – BSW Holdings Ltd, Unedau 60-62 Parc Busnes Dyffryn | Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd |
| Mr Dennis Clarke | 2024/00959/FUL – Angorfa 31, Porthladd y Barri, Heol Wimborne, Y Barri * | Gwrthwynebwyr i'r cais neu eu cynrychiolydd |
| Mr Lynden Mack | 2024/00959/FUL – Angorfa 31, Porthladd y Barri, Heol Wimborne, Y Barri * | Gwrthwynebwyr i'r cais neu eu cynrychiolydd |
| Mr Paul Robertson | 2024/00959/FUL – Angorfa 31, Porthladd y Barri, Heol Wimborne, Y Barri * | Gwrthwynebwyr i'r cais neu eu cynrychiolydd |
| Mr Tom Dunn | 2024/00959/FUL – Angorfa 31, Porthladd y Barri, Heol Wimborne, Y Barri * | Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd |

* Gohiriwyd y cais Cynllunio hwn ar ddechrau'r cyfarfod ynghylch yr eitem hon ac felly ni siaradodd y siaradwyr cofrestredig a oedd yn bresennol.

569 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

570 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2025 fel cofnod cywir.

571 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

572 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y bod y ceisiadau rheoliadau adeiladu a basiwyd, fel y'u rhestrir yn Adran (a) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.

(2) Y bod y ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran (b) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.

(3) Y bod cyflwyno Hysbysiadau o dan Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy Ayyb) 2000, fel y'u rhestrir yn Adran (c) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.

(4) Y bod Adran 32 o Ddeddf Adeiladu, 1984 yn cael ei gweithredu er mwyn cyflwyno hysbysiadau mewn perthynas â chynlluniau sy'n dair blwydd oed neu fwy a bod cyflwyno hysbysiadau o'r fath, fel y'u rhestrir yn Adran (d) o'r adroddiad, yn cael ei nodi.

573 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – Y BOD Y ceisiadau fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ar dudalennau 12 i 20, o dan y pwerau dirprwyedig uchod, yn cael eu nodi.

574 APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod yr Apeliadau Cynllunio a dderbyniwyd ar ôl i'r Cyngor wrthod rhoi caniatâd cynllunio, fel y nodir yn Adran (a) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(2) Y bod yr Apelau Gorfodi a dderbyniwyd, fel y manylir yn Adran (b) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(3) Y bod y Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylir yn Adran (c) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(4) Y bod y Penderfyniadau Apelau Gorfodi, fel y manylir yn Adran (d) yr adroddiad, yn cael eu nodi..

(5) Y dylid yr ystadegau sy'n ymwneud ag apeliadau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 – Mawrth 2026, fel y manylir yn Adran (e) yr adroddiad, yn cael eu nodi.

575 COED (PDC) –

(i) Pwerau Dirprwyedig –

PENDERFYNWYD – Nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 33 a 34, fel y'u pennwyd gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy dan bwerau dirprwyedig.

(ii) 2025/00007/TREE Castell Trebefer –

Roedd yn ofynnol i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio o dan gynllun dirprwyo cymeradwy y Cyngor oherwydd bod gwrthwynebiadau wedi cael eu derbyn ar ôl i'r Gorchymyn Cadw Coed gael ei wneud.

PENDERFYNWYD – Cadarnhawyd Gorchymyn Cadw Coed Rhif 3 o 2025 sy'n ymwneud â Chastell Trebefered, Eagleswell Road, Trebefered, Llanilltud Fawr.

Rheswm dros y penderfyniad

O ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid oedd gan y cynnig i osod GCC unrhyw oblygiadau sylweddol i, nac effaith ar, personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

Ystyriwyd bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009.

576 CEISIADAU CYNLLUNIO (PDC) –

PENDERFYNWYD – Y BOD, yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y dylid penderfynu ar y ceisiadau canlynol fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**2024/00959/FUL** Wedi'i dderbyn ar 10 Rhagfyr 2024
(T. 47)
**YMGEISYDD**: South West Wood Products Limited Clifton Moor, Clifton, Penrith, CA10 2EY
**ASIANT**: Lesley Loane Roundhouse Cottages, Bridge Street, Frome, BA11 1BB

**Angorfa 31, Porthladd y Barri, Wimborne Road, y Barri**

Newid defnydd i gyfleuster prosesu pren.

GOHIRIWYD – Gohiriwyd y cais hwn yn dilyn nifer o sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd fel rhan o'r ddogfennaeth 'Materion yn Codi' a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r cais a'r adroddiad hwn, sydd angen ystyriaeth bellach gan swyddogion Cynllunio Cyngor Bro Morganwg.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn rhoi digon o amser i swyddogion Cynllunio'r Cyngor adolygu a mynd i'r afael â'r amrywiol faterion yn codi, y wybodaeth a'r sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd mewn perthynas â'r cais a'r adroddiad cynllunio hwn.

**2022/00396/FUL** Wedi'i dderbyn ar 7 Mai 2025
(T. 66)
**YMGEISYDD**: Mrs Lorraine Garrad-Jones Gileston Manor, Gileston Road, Gileston, CF62 4HX
**ASIANT**: Keiron Lediard Office 16 (Tŷ 1, 2il Lawr), The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd, CF24 5EA

**Gileston Manor, Gileston Road, Gileston**

Cais am ddefnydd deuol o'r Tŷ Maenor (defnyddio fel llety gwesteion a lleoliad seremonïau, tra'n parhau i fod yn dŷ preswyl parhaol) ac ehangu ardal y safle a ganiateir mewn cysylltiad â defnyddio'r lleoliad.

TYNNU'N ÔL – yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd i dynnu'r cais hwn yn ôl.

Rheswm dros y penderfyniad

Tynnu'n ôl yn seiliedig ar benderfyniad yr ymgeisydd i wneud hynny.

**2021/00209/FUL** Wedi'i dderbyn ar 17 Chwefror 2021
(T. 87)
**YMGEISYDD**: Mr a Mrs A W Morgan a Chymdeithas Tai Newydd trwy g/o Asiant
**ASIANT**: Mr Pete Sulley Asbri Planning Ltd., Uned 9, Llys y Dderwen, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS

**Tir i'r De-orllewin o Sigingstone**

Datblygiad preswyl arfaethedig o 10 annedd a gwaith seilwaith cysylltiedig

Yn dilyn trafodaethau ar y cais hwn, ac oherwydd nad oedd unfrydedd ar hyn, galwyd pleidlais. Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i hon fod yn Bleidlais Gofnodedig, a gynhaliwyd fel a ganlyn:

| **Aelod** | **O Blaid** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| J. Aviet | √ | | |
| G. Bruce | | √ | |
| I.R. Buckley | √ | | |
| C.A. Cave | | √ | |
| J.E. Charles | | √ | |
| C.M. Cowpe | | √ | |
| P. Drake | √ | | |
| A.M. Ernest | | √ | |
| W. Gilligan | √ | | |
| N.P. Hodges | √ | | |
| Dr. I.J. Johnson | | √ | |
| H.M. Payne | √ | | |
| I.A.N. Perry | | √ | |
| C. Stallard | √ | | |
| N.C. Thomas | √ | | |
| E. Williams | √ | | |
| M.R. Wilson | √ | | |
| **CYFANSWM** | **10** | **7** | **0** |

Felly, cafodd argymhellion y swyddogion eu pasio. Yn dilyn y bleidlais a'r trafodaethau uchod yn y Pwyllgor, fe

PENDERFYNWYD – Y BOD y cais, yn amodol ar i Lywodraeth Cymru ddileu'r cyfarwyddyd dal, yn cael ei

<u>CYMERADWYWYD yn amodol ar yr amodau canlynol:</u>

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

   Rheswm:

   Cydymffurfio â gofynion Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol:

   a.7740-P-03 A Manylion SDCau (derbyniwyd 17/02/2021)
   DIWYGIWYD - Arolwg Safle 2103-000 (derbyniwyd 16/02/2022)
   Cynllun Lleoliad y Safle (derbyniwyd 16/02/2022)
   783.01 reva Cynigion Tirwedd 16.06.25 (derbyniwyd 02/07/2025)
   783/02 reva Cynllun Plannu Tirwedd 23/06/2025 (derbyniwyd 02/07/2025)
   2103-002ZD cynllun safle.pdf (derbyniwyd 08/10/2025)
   2103-010F cynlluniau gwastad + gweddau.pdf (derbyniwyd 08/10/2025)
   2103-011D cynlluniau tai (6P4B + 5P3B).pdf (derbyniwyd 08/10/2025)
   2103-012D gweddau tai.pdf (derbyniwyd 08/10/2025)
   2103-013G Cynllun byngalo + gweddau.pdf (derbyniwyd 08/10/2025)
   2103-014A cynlluniau tai (4P2B).pdf (derbyniwyd 08/10/2025)
   2103-015 Gwedd Stryd.pdf
   2103-002ZE cynllun safle.pdf (derbyniwyd 05/12/2025)
   Asesiad o’r Effaith Ecolegol, Prosiect: Tresigin, y Bont-faen, Bro Morgannwg, V1, dyddiedig Mawrth 2025 gan Ecological Services Ltd. - Adrannau 4 a 5.
   Arolwg Coed, Prosiect: Tresigin, y Bont-faen, Bro Morgannwg, V1.0, dyddiedig Gorffennaf 2020, gan Ecological Services Ltd. - Adrannau 10 a 11.
   783.03 Atodlenni a Manyleb Planhigion (derbyniwyd 02/07/2025)

   Rheswm:

   Er mwyn osgoi amheuon ynglŷn â'r datblygiad cymeradwy ac i gyd-fynd â Chylchlythyr 016:2014 ar Y Defnydd o Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu.

3. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud yn benodol â darparu 10 uned dai fforddiadwy. Darperir y tai fforddiadwy yn unol â’r cynllun cymeradwy a bydd yn bodloni'r diffiniad o dai fforddiadwy yn Atodiad B Nodyn Cyngor Technegol 2 Llywodraeth Cymru ar Dai Fforddiadwy, neu unrhyw ganllawiau yn y dyfodol sy'n ei ddisodli.

   Rheswm:

   Er mwyn sicrhau bod y safle yn cynnig darpariaeth briodol o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), SP4 (Darpariaeth Tai Fforddiadwy), MG4 (Tai Fforddiadwy), MD4 (Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio), a

MD10 (Aneddiadau Tai Fforddiadwy y Tu Allan i Ffiniau Aneddiadau) y Cynllun Datblygu Lleol.

4. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, a chyn iddynt gael eu defnyddio i ddatblygu atodlen o ddeunyddiau (gan gynnwys samplau) i'w defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad a gymeradwywyd drwy hyn fe'i cyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y datblygiad yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r datblygiad.

Rheswm:

Er mwyn diogelu amwynderau gweledol lleol, fel sy'n ofynnol gan Bolisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a Pholisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

5. Er gwaethaf y cynlluniau a'r manylion a gyflwynwyd, cyn meddiannu buddiol unrhyw uned, bydd manylion llawn yr ardal chwarae leol (AChL) gan gynnwys offer a manylion amserlen cynnal a chadw, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr ardal chwarae leol (AChL) yn cael ei chwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn meddiannu buddiol unrhyw un o'r unedau preswyl a gymeradwywyd drwy hyn a chaiff ei chynnal ar ôl hynny yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm:

Er mwyn diogelu amwynderau lleol, fel sy'n ofynnol gan Bolisïau MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

6. Bydd yr holl ddulliau o amgáu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad a gymeradwywyd drwy hyn yn cael eu cwblhau yn unol â chynllun i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno arno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae'n cynnwys bylchau sy'n addas i ddraenogod (130 mm sgwâr). Bydd y dull amgáu yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r datblygiad.

Rheswm:

Diogelu amwynderau gweledol lleol a sicrhau gwella bioamrywiaeth, a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a Pholisi MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) o'r Cynllun Datblygu Lleol.

7. Caiff y mesurau gwella bioamrywiaeth a nodir yng nghyfnod cynllun:783.01 reva Cynigion Tirlunio 16.06.25 (derbyniwyd 02/07/2025) a 783/02 reva Cynllun Plannu Tirlunio 23/06/2025 (derbyniwyd 02/07/2025 a chyfeirnod y ddogfen: Datganiad SG Mehefin 2025 a 03 Asesiad Effaith Ecolegol 2025 eu cynnal yn llawn cyn meddiannaeth neu ddefnydd buddiol cyntaf y datblygiad

ac wedi hynny eu cadw a'u cynnal yn unol â'r manylion cymeradwy tra bod y datblygiad yn parhau i fodoli.

Rheswm:

Er budd ecoleg ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

8. Rhaid gwneud unrhyw glirio llystyfiant y tu allan i'r tymor nythu, a gydnabyddir yn gyffredinol o fis Mawrth i fis Awst gan gynnwys y misoedd hynny, oni bai y gellir dangos yn gyntaf bod adar nythu yn absennol.

Rheswm:

I sicrhau nas effeithir yn andwyol ar unrhyw rywogaethau sydd wedi’u gwarchod gan y datblygiad ac i sicrhau cydymffurfiaeth â budd ecolegol a sicrhau cydymffurfiaeth â Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

9. Bydd yr holl waith plannu, hadu neu dywarchu wedi’i gynnwys yn y manylion cymeradwy tirweddu’n cael ei wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl meddiannu'r adeiladau neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag sydd gynharaf; bydd unrhyw goed neu blanhigion sydd o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r datblygiad yn marw, yn cael eu symud neu’n cael eu difrodi'n ddifrifol neu eu heintio yn cael eu disodli yn y tymor plannu nesaf gydag eraill o faint a rhywogaeth debyg.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod yr ardal wedi’i thirweddu’n cael ei chynnal a chadw’n foddhaol i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol), MD1 (Lleoliad Datblygiad Newydd) ac MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

10. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd, gan gynnwys clirio safle, nes bod Cynllun Cadwraeth pathewod ar draws y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Dylai'r Cynllun Cadwraeth gynnwys:

i) Asesiad o effeithiau'r cynigion ar bathewod. Dylai hyn ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol a mynd i'r afael â'r camau adeiladu a gweithredol. Egluro maint a dosbarthiad y cynefin presennol; cynefin a gollir, cynefin i'w gadw, ei wella, ac unrhyw gynefin i'w greu; ac asesiad o'u cyflwr a'u gwerth ar gyfer pathewod.
ii) Manylion amodau nodweddion a ddymunir (sy'n bresennol ac i'w creu) ar y safle.
iii) Strategaeth clirio safle sy'n manylu ar y mesurau a'r gweithdrefnau amddiffynnol i'w cymryd i osgoi neu leihau effeithiau gwaith ar bathewod.

Dylai hyn gynnwys mesurau i atal neu leihau dal neu ladd damweiniol a chamau i'w cymryd rhag ofn dod o hyd i bathewod.
iv) Manylion amseru, camu a hyd gweithgareddau adeiladu a mesurau cadwraeth.
v) Manylion rheoli, monitro a chynnal a chadw nodweddion tirwedd, amgylcheddol ac ecolegol newydd a phresennol ar y safle i gyflawni a chynnal y cyflwr a ddymunir.

Yna bydd y cynllun diogelu a rheoli yn cael ei gwblhau yn unol â'r amserlenni a gymeradwywyd gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheswm:

Er budd ecoleg ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth), MG19 (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd) a MG20 (Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol) y Cynllun Datblygu Lleol.

11. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod cynllun gwarchod Madfallod Dŵr Cribog yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleoi, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo: Bydd cynllun gwarchod Madfallod Dŵr Cribog yn cynnwys:

i) Cynllun sy'n dangos parthau gwarchod Madfallod Dŵr Cribog;
ii) Manylion y dulliau datblygu ac adeiladu o fewn parthau gwarchod y Madfallod Dŵr Cribog a'r mesurau sydd i'w cymryd i leihau effaith unrhyw waith; a
iii) Manylion cwblhau'r cynllun diogelu yn raddol.

Bydd y cynllun amddiffyn Madfallod Dŵr Cribog yn cael ei gwblhau yn unol â'r graddiad cymeradwy a chaiff ei gadw bob amser yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm:

Er budd ecoleg ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MG19 (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd) / MG20 (Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol) y Cynllun Datblygu Lleol.

12. Os o fewn cyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad plannu unrhyw goeden a gynigir fel rhan o'r cynllun tirlunio, neu unrhyw goeden a blannwyd yn ei lle, yn cael ei thynnu, ei dadwreiddio neu ei dinistrio neu farw neu ddod yn ddifrifol neu'n ddiffygiol, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd coeden arall o'r un rhywogaeth a maint â'r un a blannwyd yn wreiddiol yn cael ei phlannu yn yr un lle yn ystod y plannu tymor nesaf yn syth ar ôl marwolaeth / tynnu / dinistrio'r goeden honno.

Rheswm:

Er mwyn osgoi difrod i goed ar y safle neu gyfagos i'r safle sydd o werth amwynder i'r ardal ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol), MD1 (Lleoliad Datblygiadau Newydd) ac MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

13. Ni fydd unrhyw waith datblygu’n dechrau, gan gynnwys unrhyw waith dymchwel, nes y bydd Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CRhAA) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y CrhAA yn cynnwys y manylion canlynol:

i) parcio cerbydau gweithredwyr safle ac ymwelwyr;
ii) llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
iii) storio peiriannau a deunydd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad;
iv) codi a chynnal a chadw palisau diogelwch, gan gynnwys arddangosfeydd addurniadol a chyfleusterau i'w gweld gan y cyhoedd, lle bo'n briodol;
v) cyfleusterau golchi olwynion;
vi) mesurau i reoli a lliniaru allyriadau llwch, mwg, llygryddion eraill a gludir yn yr awyr a bryntni wrth adeiladu;
vii) chynllun ar gyfer ailgylchu/gwaredu gwastraff sy'n deillio o waith dymchwel ac adeiladu.
viii) oriau adeiladu;
ix) goleuadau;
x) rheoli, rheolaeth a lliniaru sŵn a dirgryniad;
xi) rheoli a lliniaru arogleuon;
xii) ardaloedd neu fyndiau storio tanciau disel ac olew;
xiii) sut mae'r datblygwr yn bwriadu cydymffurfio â'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol (www.considerateconstructorsscheme.org.uk) yn ystod y gwaith o adeiladu'r datblygiad; a
xiv) system i reoli cwynion gan drigolion lleol a fydd yn cynnwys system adrodd ar gwynion.
xv) Gwaith Rheoli Safle Cyffredinol: manylion y rhaglen adeiladu gan gynnwys amserlen, manylion clirio’r safle; manylion draenio’r safle adeiladu, ardaloedd ynysu, parthau byffer o faint priodol rhwng ardaloedd storio (sborion, olewau, tanwyddau, ardaloedd cymysgu concrit a golchi) ac unrhyw ddraen arwyneb neu gwrs dŵr.
xvi) Atal Llygredd: dangos sut y bydd canllawiau perthnasol ar gyfer Atal Llygredd ac arfer gorau yn cael eu gweithredu, gan gynnwys manylion gweithdrefnau gollyngiadau brys a chynllun ymateb i ddigwyddiadau.
xvii) Rheoli pridd: gwneud y datblygiad mewn camau i leihau amlygiad y tir. Bydd y CRhAA yn cael ei weithredu fel y'i cymeradwywyd wrth i’r safle gael ei baratoi ac yn ystod y gwaith adeiladu.
xviii) Cynhelir arolwg ystlumod cyn adeiladu o goeden T9.
xix) Manylion unrhyw generaduron neu weithgareddau pentyrru (gan gynnwys amseroedd)

Bydd adeiladu’r datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r CRhAA cymeradwy.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod y gwaith o adeiladu'r datblygiad yn cael ei wneud mewn modd ystyriol o’r gymdogaeth ac er budd diogelu amwynderau a'r amgylchedd ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

14. Os canfyddir halogiad ar unrhyw adeg wrth gyflawni'r datblygiad cymeradwy nad oedd wedi'i nodi o'r blaen, rhaid adrodd hyn yn ysgrifenedig o fewn 2 ddiwrnod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, rhaid i'r holl waith cysylltiedig ddod i ben, ac ni fydd unrhyw ddatblygu pellach yn digwydd nes bod cynllun i ddelio â'r halogiad a ganfuwyd wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Rhaid cynnal ymchwiliad ac asesiad risg a lle bo angen unioni, rhaid paratoi cynllun unioni a chynllun cadarnhau a’u cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo hefyd. Ar ôl cwblhau’r mesurau a nodwyd yn y cynllun unioni cymeradwy, rhaid cyflwyno adroddiad cadarnhau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid i hyn gael ei gymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr amserlen ar gyfer y camau uchod yn cael ei gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn pythefnos i ddarganfod unrhyw halogiad nas amheuwyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau annerbyniol o halogiad tir i ddefnyddwyr y tir yn y dyfodol, tir cyfagos, dyfroedd rheoledig, eiddo a systemau ecolegol yn cael eu lleihau, a sicrhau y gellir cyflawni'r datblygiad yn ddiogel heb risgiau annerbyniol i weithwyr, cymdogion a derbynyddion eraill oddi ar y safle yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

15. Bydd unrhyw agregau (ond am garreg chwarel crai) neu agregau a ailgylchir a fewnforir yn cael ei asesu ar gyfer halogyddion cemegol neu arall posibl yn unol â chynllun archwilio a gaiff ei gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo cyn ei fewnforio. Dim ond deunydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gaiff ei fewnforio. Bydd yr holl fesurau a nodir yn y cynllun cymeradwy yn cael eu rhoi ar waith yn unol â Nodiadau Cyfarwyddyd Deunyddiau a Fewnforir Pollution Control. Yn amodol ar gymeradwyo’r uchod, rhaid cynnal samplau ar y deunydd a ddygir ar y safle datblygu i gadarnhau bod y pridd wedi’i fewnforio heb ei halogi, a gwneir hynny’n unol â’r cynllun a’r amserlen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

16. Bydd unrhyw uwchbridd (naturiol neu artiffisial) neu isbridd a fewnforir yn cael ei asesu ar gyfer halogyddion cemegol neu halogyddion posibl eraill yn unol â chynllun ymchwilio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn ei fewnforio. Dim ond deunydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gaiff ei fewnforio. Bydd yr holl fesurau a nodir yn y cynllun cymeradwy yn cael eu rhoi ar waith yn unol â Nodiadau Cyfarwyddyd Deunyddiau a Fewnforir Pollution Control. Yn amodol ar gymeradwyo'r uchod, rhaid cynnal samplau ar y deunydd a ddygir ar y safle datblygu i gadarnhau bod y pridd wedi'i fewnforio heb ei halogi, a gwneir hynny'n unol â'r cynllun a'r amserlen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

17. Bydd unrhyw ddeunydd a adferwyd ar y safle, gan gynnwys priddoedd, agregau, deunyddiau wedi'u hailgylchu, yn cael ei asesu ar gyfer halogion cemegol neu halogion posibl eraill yn unol â chynllun samplu a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn ailddefnyddio deunyddiau a adferwyd ar y safle. Dim ond deunydd sy'n bodloni gwerthoedd targed safle-benodol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn cael ei ailddefnyddio.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad oes niwed i ddiogelwch meddianwyr yn y dyfodol yn unol â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

18. Cyn dechrau datblygu, bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Rheoli yn cynnwys manylion parcio ar gyfer traffig adeiladu, y llwybrau arfaethedig ar gyfer cerbydau adeiladu trwm, amseriadau traffig adeiladu a dulliau o ddiffinio a rheoli llwybrau ac amseriadau traffig o'r fath. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun Rheoli cymeradwy.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau nad yw'r ddarpariaeth parcio na diogelwch ar y briffordd yn yr ardal yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y gwaith o adeiladu'r datblygiad ac i fodloni gofynion Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) , MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu /Lleol.

19. Cyn dechrau unrhyw waith, bydd manylion peirianneg llawn yr holl drefniadau traffig (gan gynnwys cerbytffyrdd, troedffyrdd, radiau cyrbiau, dulliau wynebu, deunyddiau, mannau croesi, goleuadau stryd, draenio ac ati), sy'n gysylltiedig

â'r dulliau mynediad i'r safle ac o fewn y safle yn cael eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Ar ôl hynny, ni chaiff y datblygiad ei feddiannu nes bod yr holl waith wedi'i wneud yn unol â'r manylion cymeradwy ac wedi hynny bydd y mynediad a'r gwelededd cysylltiedig yn cael eu cynnal yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y fynedfa fewnol o fewn y safle yn cael ei darparu a'i hadeiladu yn unol â manylion safonol y Cyngor i'w mabwysiadu, er budd diogelwch priffyrdd, yn unol â darpariaethau Polisi MD2 o'r Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd.

20. Er gwaethaf darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd ar gyfer Cymru) (neu unrhyw orchymyn sy'n dirymu ac yn ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw gydag addasiad neu hebddo), ni chaiff unrhyw ffensys, gatiau na waliau eu codi o fewn cwrtil unrhyw dŷ annedd o flaen prif wedd y tŷ annedd hwnnw.

Rheswm:

Er mwn diogelu amwynderau gweledol lleol, a sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) a Pholisi MD2 (Dylunio Datblygiadau Newydd) o'r Cynllun Datblygu Lleol.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Mae'r penderfyniad i argymell caniatâd cynllunio wedi'i wneud yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar gais cynllunio, i'r penderfyniad fod yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026 a Chymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.

Gan ystyried Polisïau SP1 'Cyflawni'r Strategaeth'; SP3 'Gofyniad Preswyl'; SP4 – Darpariaeth Tai Fforddiadwy; SP9 'Mwynau'; SP10 'Amgylchedd Adeiledig a Naturiol'; MG1 'Cyflenwad Tai ym Mro Morgannwg'; MG2 'Dyraniadau Tai'; MG4 'Tai Fforddiadwy'; MG18 'Lletemau Gwyrdd'; MG19 'Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd'; MG20 'Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol'; MG21 'Safleoedd sy'n bwysig i gadwraeth natur, safleoedd daearegol a geomorffolegol o bwys rhanbarthol a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth'; MG22 'Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau'; MG28 'Dyraniadau Mannau Agored Cyhoeddus'; MD1 'Lleoliad Datblygiad Newydd'; MD2 'Dylunio Datblygiad Newydd'; MD3 'Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored'; MD4 'Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio'; MD5 'Datblygu o fewn Ffiniau Anheddiad'; MD6 'Dwysedd Tai'; MD7 'Diogelu'r Amgylchedd'; MD8 'Amgylchedd Hanesyddol'; MD9 'Hyrwyddo Bioamrywiaeth'; ystyrir bod y cynigion yn cael eu hystyried yn dderbyniol o ran egwyddor; dwysedd; effaith weledol a thirwedd; dylunio a chynllun; materion priffyrdd; effaith ar amwynder preswyl preswylwyr eiddo cyfagos presennol; amwynder meddianwyr y safle yn y dyfodol; draenio a pherygl llifogydd; effeithiau ecolegol (gan gynnwys coed a gwrychoedd); a diogelu mwynau.

Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

**2023/00815/FUL** Wedi'i dderbyn ar 10 Awst 2023
(T. 136)
**YMGEISYDD**: BSW Holdings Unedau 60-62, Parc Busnes Dyffryn, Heol Llanilltud Fawr, Llandŵ, CF71 7PY
**ASIANT**: Mr James Scarborough Swyddfa 16 (Tŷ 1, 2il Lawr), The Maltings, Stryd East Tyndall, Caerdydd, CF24 5EA

**BSW Holdings Ltd., Unedau 60-62, Parc Busnes Dyffryn, Heol Llanilltud Fawr, Llandŵ**

Y bwriad i godi 1 adeilad i ddarparu 3 uned fasnachol gyda pharcio cysylltiedig a gwaith arall

Roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar y cais o dan gynllun dirprwyo cymeradwy'r Cyngor gan ei fod o faint a natur nad oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun dirprwyo.

PENDERFYNWYD – BOD, yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i ddarparu ar gyfer y canlynol:

• £5,020 ar gyfer hyfforddiant a datblygiad;
• £40,940 tuag at gyfraniadau trafnidiaeth gynaliadwy;
• 1% o gostau adeiladu tuag at gelf gyhoeddus.

CYMERADWYWYD yn amodol ar yr amodau canlynol:

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

   Rheswm:

   Cydymffurfio â gofynion Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol:

   BSW732_E - Cynllun Safle a Lleoliad (Cam 2)
   Bsw726 E Pre1 - Cam 2 - Golwg y Cynllun
   Bsw729 C - Cam 2 - Cysyniad Draenio
   28646 Hyd XX xx Dr C 7000 P02 Strategaeth Draenio
   49275c - Goleuadau Kingfisher
   49275/PJ/F Map Goleuadau Kingfisher

C23034 Atp Dr Tp 004 - Trefniant cyffredinol a chynllun gwelededd mynediad i'r safle
C23034 Ts01 Iss4 Datganiad Trafnidiaeth Cywasgedig
BSW723_H Cam 2 - Uned gornel (triphlyg)
BSW731_H Cynnig cynllun safle - Ffordd newydd Cam 2
C23034. Arolwg Traffig TS01
Manyleb y Dirwedd a Chynllun Rheoli
Cynigion Tirwedd Meddal Manwl (Rev B)
BSW742_B - Mannau Agored Cyhoeddus P2
Cechowicz, D. (2025). 'Parc Busnes Dyffryn, Llandŵ, CF71 7PY Datganiad Dull Lliniaru – Madfallod Dŵr Cribog', a baratowyd gan Soltys Brewster Ecology, dyddiedig 17 Ebrill 2025

Rheswm:

Er mwyn osgoi amheuon ynglŷn â'r datblygiad cymeradwy ac i gyd-fynd â Chylchlythyr 016:2014 ar Y Defnydd o Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu.

3. Bydd y mesurau gwella bioamrywiaeth a nodir yn ‘Manyleb Tirlunio a Chynllun Rheoli’ yn cael eu ‘Datganiad Seilwaith Gwyrdd’ a ‘Cynigion Tirlunio Meddal Manwl (Rev B)’ cynnal yn llawn cyn meddiannaeth neu ddefnydd buddiol cyntaf y datblygiad ac wedi hynny yn cael eu cadw yn unol â'r manylion cymeradwy tra bod y datblygiad yn parhau i fodoli.

Rheswm:

Er budd ecoleg ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

4. Os canfyddir halogiad ar unrhyw adeg wrth gyflawni'r datblygiad cymeradwy nad oedd wedi'i nodi o'r blaen, rhaid adrodd hyn yn ysgrifenedig o fewn 2 ddiwrnod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, rhaid i'r holl waith cysylltiedig ddod i ben, ac ni fydd unrhyw ddatblygu pellach yn digwydd, oni bai y cytunwyd fel arall yn ysgrifenedig, nes bod cynllun i ddelio â'r halogiad a ganfuwyd wedi'i gymeradwyo. Rhaid cynnal ymchwiliad ac asesiad risg a lle bo angen unioni, rhaid paratoi cynllun unioni a chynllun cadarnhau a’u cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo hefyd. Ar ôl cwblhau’r mesurau a nodwyd yn y cynllun unioni cymeradwy, rhaid cyflwyno adroddiad cadarnhau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a rhaid i hyn gael ei gymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr amserlen ar gyfer y camau uchod yn cael ei gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn pythefnos i ddarganfod unrhyw halogiad nas amheuwyd.

Rheswm:

Er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau annerbyniol o halogiad tir i ddefnyddwyr y tir yn y dyfodol, tir cyfagos, dyfroedd rheoledig, eiddo a systemau ecolegol yn cael eu lleihau, a sicrhau y gellir cyflawni'r datblygiad yn ddiogel heb

risgiau annerbyniol i weithwyr, cymdogion a derbynyddion eraill oddi ar y safle yn unol â pholisi MD7 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg.

5. Bydd unrhyw agregau (ond am garreg chwarel crai) neu agregau a ailgylchir a fewnforir yn cael ei asesu ar gyfer halogyddion cemegol neu arall posibl yn unol â chynllun archwilio a gaiff ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn ei fewnforio. Dim ond deunydd a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gaiff ei fewnforio. Cyflawnir pob mesur a nodir yn y cynllun a gymeradwyir yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Nodiadau Canllaw perthnasol.

Yn amodol ar gymeradwyo'r uchod, rhaid cynnal samplau ar y deunydd a ddygir ar y safle datblygu i gadarnhau bod y deunydd wedi'i fewnforio heb ei halogi, a gwneir hynny'n unol â'r cynllun a'r amserlen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm:

Sicrhau nad yw diogelwch meddianwyr yn y dyfodol yn cael ei effeithio yn unol â pholisi MD7 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg.

6. Er gwaethaf y manylion a gyflwynir yn y cynllun o'r enw 'BSW742_B - Man Agored Cyhoeddus P2)' a chyn dechrau'r datblygiad, bydd cynllun ar gyfer darparu a chynnal a chadw mannau agored ar y safle i wasanaethu gweithwyr y safle yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig, a bydd yn cynnwys manylion amseriad ei ddarpariaeth, dodrefn, tirlunio, a chynnal a chadw yn y dyfodol. Caiff y man agored ei ddarparu yn unol â'r manylion wedi'u cymeradwyo a'i gadw a chynnal yn unol â'r manylion dan sylw bob amser ar ôl hynny.

Rheswm:

Sicrhau darpariaeth amserol y man agored cyhoeddus ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau MD2 Dylunio Datblygiad Newydd a MD4 Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio Cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol.

7. Bydd yr holl waith plannu, hadu neu dywarchu wedi'i gynnwys yn y manylion cymeradwy tirlunio wedi'u dangos yn 'Cynigion Tirlunio Meddal Manwl (Rev b)' yn cael ei wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl meddiannu'r adeiladau neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag sydd gynharaf; bydd unrhyw goed neu blanhigion sydd o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r datblygiad yn marw, yn cael eu symud neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu eu heintio yn cael eu disodli yn y tymor plannu nesaf gydag eraill o faint a rhywogaeth debyg.

Rheswm:

Sicrhau cynnal a chadw boddhaol yr ardal wedi'i thirlunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD2 (Dylunio

Datblygiadau Newydd) a MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth) y Cynllun Datblygu Lleol.

8. Bydd cynllun rheoli tirwedd, gan gynnwys cyfrifoldebau rheoli ac amserlenni cynnal a chadw ar gyfer yr holl ardaloedd wedi'u tirlunio fel y dangosir yn y cynllun o'r enw 'Cynigion Manwl Tirlunio Meddal (Rev B)' yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn meddiannu unrhyw un o'r anheddau ar y safle. Cyflawnir y cynllun rheoli tir fel y'i cymeradwyir.

   Rheswm:

   Sicrhau cynnal a chadw boddhaol yr ardal wedi'i thirlunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), a MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

9. Cyn meddiannu'r datblygiad yn fuddiol, bydd strategaeth arwyddion yn cael ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig a'i gweithredu ar y safle. Bydd y strategaeth yn cynnwys arwyddion priffyrdd newydd ar hyd y B4270 sy'n hysbysu traffig am y parc busnes ac adleoli'r arwyddion o fynedfa'r safle i'r ffin ddatblygu. Bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â dylunio a gweithredu'r arwyddion yn daladwy gan yr ymgeisydd neu'r datblygwr.

   Rheswm:

   Er mwyn budd diogelwch ar y briffordd ac i sicrhau arwyddion boddhaol i wasanaethau'r datblygiad, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) y Cynllun Datblygu Lleol.

10. Bydd y datblygiad bob amser yn cael ei wneud yn unol â'r argymhellion a'r dulliau lliniaru a gynhwysir yn y dogfennau o'r enw 'Doc Ref E25131401 - 08 Ebrill 2025 Datganiad Dull Lliniaru - Madfallod Dŵr Cribog).

   Rheswm:

   Er budd ecoleg ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MG19 (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd) a MD9 - Hyrwyddo Bioamrywiaeth y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllaw Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth y Cyngor.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Mae'r penderfyniad i argymell caniatâd cynllunio wedi'i wneud yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar gais cynllunio, i'r penderfyniad fod yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026 a Chymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.

Gan ystyried Polisïau SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), SP5 (Gofynion Cyflogaeth), SP10 (Yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol), MG9 (Gofynion Cyflogaeth), Polisi MG20 (Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol), MD1 (Lleoliad Datblygiad Newydd), MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd), MD7 (Diogelu'r Amgylchedd), MD9 (Hyrwyddo Bioamrywiaeth), MD14 (Cynigion Cyflogaeth Newydd) a MD16 (Diogelu Safleoedd Cyflogaeth ac Adeiladau Presennol) o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd 2011 – 2026, Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, penodau perthnasol Polisi Cynllunio Cymru (12fed Argraffiad), Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio (2016), a chanllawiau cynllunio atodol y Cyngor ar gyfer Bioamrywiaeth a Datblygu (2018), Dylunio yn y Dirwedd, Safonau Parcio (2019), ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol o ran yr egwyddor o ddatblygu, dylunio ac effaith weledol, effaith ar amwynder preswyl, diogelwch priffyrdd a darpariaeth parcio, ecoleg, seilwaith gwyrdd a gwella bioamrywiaeth.

O ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol ar gyfer, neu effaith ar, unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009.